# Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

## rhoi plant a phobl ifanc yn gyntaf

# Taflen wybodaeth

### Beth yw Bwrdd Pobl Ifanc yr NSPCC ar gyfer Newid?

Diben y Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid yw llywio, cyfarwyddo a dylanwadu ar yr NSPCC ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn y DU.

Mae'r bwrdd yn cynnwys 15 o bobl ifanc, rhwng 13 ac 16 oed, o bob cwr o'r DU. Byddan nhw'n cwrdd yn rheolaidd rhwng mis Mawrth 2023 a mis Mawrth 2025.

Gall unrhyw un wneud cais – rydym am i lawer o wahanol bobl ifanc fod yn rhan o'r bwrdd. Does dim angen iddyn nhw gael profiad blaenorol o gymryd rhan mewn grŵp cynghori, nac o wirfoddoli gyda'r NSPCC. Byddan nhw'n cael llawer o gefnogaeth, gwybodaeth a hyfforddiant fel eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn hapus i gymryd rhan.



NSPCC

MAE POB PLENTYNDOD WERTH BRWYDRO DROSTO
EVERY CHILDHOOD IS WORTH FIGHTING FOR

# Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid

## Mae angen pobl ifanc arnom ni sydd:

- Rhwng 13 a 16 oed.
- Â diddordeb mewn gwella bywydau plant a phobl ifanc.
- Yn barod i wrando ar eraill a pharchu eu barn.
- Yn fodlon gweithio gydag eraill a grwpiau lleol.
- Yn fodlon gwneud eu gorau glas i gyfrannu at y bwrdd.
- Yn gallu dod i bob cyfarfod a gweithdy (bydd y dyddiadau'n cael eu rhannu ymlaen llaw).

## Beth fydd pobl ifanc yn ei gael o wneud hyn?

Fel aelod o Fwrdd Pobl Ifanc yr NSPCC ar gyfer Newid, byddan nhw'n cael teithio ledled y wlad i gymryd rhan mewn digwyddiadau preswyl, cyfarfodydd, ymgynghoriadau a gweithdai. Bydd eu barn yn cael eu clywed drwy siarad â phobl ifanc eraill, ymddiriedolwyr yr NSPCC, staff, gwleidyddion a phobl sy'n gwneud penderfyniadau. Byddan nhw'n cael eu hyfforddi a'u cefnogi i gael barn plant a phobl ifanc eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Ac yn bwysicach na dim, byddan nhw'n cael cwrdd â llawer o bobl ifanc eraill a chael llawer o hwyl.

## Beth mae'n rhaid iddyn nhw gytuno i'w wneud?

- Mynd i bob cyfarfod ar-lein ac wyneb yn wyneb, gan gynnwys digwyddiadau preswyl wyneb yn wyneb.
- Manteisio ar bob cyfle i gynghori'r NSPCC ar y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.
- Dweud wrth yr NSPCC eu barn am yr hyn mae'r mudiad yn ei wneud, a beth gallen nhw fod yn ei wneud yn well i blant a phobl ifanc.
- Casglu barn plant a phobl ifanc eraill ledled y DU am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ei hangen a'i heisiau arnyn nhw a'u teuluoedd/gofalwyr.
- Cwrdd fel grwpiau pwnc a grwpiau rhanbarthol llai. Bydd y digwyddiadau hyn yn cynnwys gweithio gyda'n tîm ymgyrchoedd lleol a rhanbarthol, yn ogystal â chwrdd â phobl ifanc eraill sydd ddim ar y bwrdd a gofyn am eu barn am feysydd gwaith y bwrdd.

## Faint fydd hyn yn ei gostio?

Bydd yr NSPCC yn talu costau teithio, llety a threuliau rhesymol ar gyfer cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd yr hyn y byddwn yn ei dalu yn cael ei rannu â chi cyn dod i gyfarfod.



## Amddiffyn Plant:

Mae'r NSPCC wedi ymrwymo i amddiffyn plant a phobl ifanc, ac i greu diwylliant gwaith lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi a'u diogelu. Mae gan yr NSPCC bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ac mae disgwyl i'r holl staff weithio tuag atynt. Er mwyn creu amgylchedd diogel i blant a staff lle mae arferion gwael yn cael eu herio, byddwn yn cymryd y camau canlynol:

- Mae'r holl staff yn cael eu harchwilio gan yr heddlu, ac mae geirdaon yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr bod staff yn addas.
- Mae'r holl staff yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi yn eu gwaith.
- Mae'r holl staff yn gweithio gan ddilyn gweithdrefnau amddiffyn plant yr NSPCC, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl yr angen.
- Mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant ar lefel sy'n briodol i'w sefyllfa waith.
- Gall yr holl staff fynegi pryderon am ymarfer gwael neu beryglus drwy weithdrefnau amddiffyn plant a pholisi chwythu'r chwiban yr NSPCC.
- Mae asesiad risg llawn yn cael ei wneud ar gyfer ein holl ddigwyddiadau.
- Rydym ni'n gofyn am fanylion yswiriant unrhyw leoliadau allanol rydym ni'n eu defnyddio, ac yn gwirio'r manylion hynny.

## Y camau nesaf a rhagor o wybodaeth:

Llenwch ffurflen gais erbyn 23 Ionawr 2023.

Gwybodaeth am y Bwrdd Pobl Ifanc ar gyfer Newid:
**nspcc.org.uk/boardforchange**

Os oes gennych chi ragor o gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Zazie Clarke yn **participationteam@nspcc.org.uk**

©NSPCC 2020. Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant. Rhifau cofrestru'r elusen yng Nghymru a Lloegr 216401, Alban SC037717 a Jersey 384.
Mae'r plant a'r oedolion yn y lluniau yn wirfoddolwyr. Ffotograffiaeth gan Tom Hull a Jon Barlow. J20221141.